

Croeso i ail rifyn cylchlythyr trwyddedu rhywogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru

Ymgysylltu a cwsmeriaid

Mae ymgysylltu a cwsmeriaid bob amser yn flaenoriaeth uchel, fodd bynnag, mae cyfle i ryngweithio gyda nifer fawr o gwsmeriaid ar yr un pryd yn codi yn anaml.

Yn ddiweddar cynhaliwyd dau seminar hanner diwrnod yng Nghaerdydd mewn menter ar y cyd rhwng Tîm Rhywogaethau De Cymru â'r Tîm Trwyddedu Rhywogaethau. Ymgynghorwyr ecolegol ar draws De Cymru oedd targed y ddau seminar, ac roedd 37 ecolegwr o bob rhan o'r rhanbarth yn bresennol.

Roedd y seminarau wedi eu cynllunio i fod yn rhyngweithiol gyda'r amcanion canlynol:-

- Esbonio y broses drwyddedu rhywogaethau Ewropeaidd
- Adeiladu perthnasoedd
- Nodi problemau cyffredin gyda cheisiadau
- Gwella ceisiadau
- Darparu cyfle i adborth
- Rhannu arfer gorau

Mae'r seminarau yn gyfle i rannu ein profiad a chynghor wrth dderbyn awgrymiadau a sylwadau gwerthfawr ar y wybodaeth, ffurflenni a chynghor a ddarparwn i'n cwsmeriaid. Rydym yn awr yn trefnu digwyddiad tebyg ar gyfer Gogledd a Chanolbarth Cymru



Ffurflenni cais newydd a dywygiad i ffurflen drwydded REW

Rydym wedi lansio nifer o ffurflenni cais newydd ar ein gwefan ynghyd â ffurflen newydd am geisiadau i newid trwydded RED. Mae'r ffurflen diwygiad yn ymdrin â materion megis newid ecolegydd neu drwyddedai, amseriadau a diwygiadau i ddatganiadau dull

Mae'r ffurflenni cais newydd ar gyfer :-
Datblygiad REW; Adar bysgodol; Adar ddi-bysgodol a Rheoli coedwigoedd REW.

Sicrhewch bod pob cais neu geisiadau am newidiadau yn cael eu cyflwyno ar y ffurflenni newydd.

Adroddiadau Trwyddedu

Hoffem atgoffa ein cwsmeriaid am bwysigrwydd cyflwyno eich ffurflenni adrodd diwedd trwydded ar amser ac wedi cwblhau'n llawn.

Bydd y tîm yn anfon nodyn atgoffa os nad yw ffurflenni adrodd yn cael eu derbyn. Byddwn hefyd yn dychwelyd ffurflenni anghyflawn i gwsmeriaid i'w gwblhau.

Sylwch mae'n amod o'ch trwydded i gwblhau ffurflen adroddiad, mae methiant i wneud hynny yn effeithio ar geisiadau yn y dyfodol.

Dylid cyfeirio pob ymholiad trwy'r Adran Ymholiadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar 03000653000